# Awtistiaeth: Cynhwysiant a Pherthyn – Cynhadledd i Weithwyr Proffesiynol sy'n gweithio hefo pobl ifanc ar draws Gwaith Ieuenctid a Chyfiawnder Ieuenctid:

- **Dyddiad:** Dydd Iau 21ain Mai 2026
- **Amser:** 9.00 y bore – 4.00 y prynhawn
- **Lleoliad:** Canolfan Busnes Conwy, Junction Way, Cyffordd Llandudno. LL31 9XX
- **Cost:** Am ddim (fodd bynnag, codir tâl o £20 am beidio â mynychu ar y diwrnod). Mae cinio a lluniaeth wedi'u cynnwys

Ymunwch hefo ni am gynhadledd undydd sy'n canolbwyntio ar strategaethau ymarferol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i gefnogi pobl ifanc niwroamrywiol ar draws lleoliadau gwaith ieuenctid a chyfiawnder ieuenctid.
Addas ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid a Rheolwyr, Ymarferwyr Cyfiawnder Ieuenctid, Gweithwyr Cymdeithasol sy'n gweithio gyda phobl ifanc, ac unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n cefnogi pobl ifanc niwroamrywiol.

**Ymhlith y siaradwyr allweddol yn y bore mae:**
Colin Foley o Sefydliad ADHD
Scott Jenkinson, Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Blannwr Siediau, Siediau Ieuenctid

**Dewis o weithdy prynhawn:**
Roxy Nugent (Amrywiaeth: Yr Hyn y Gallwch a'r Hyn na Allwch ei Ddweud)
Rebecca Shanks (Defnyddio'r Offeryn Proffilio Niwroddatblygiadol Newydd)
Jo Price (Amgylcheddau Galluog mewn Lleoliadau Ieuenctid)
Colin Foley (Y Berthynas Rhwng Iechyd Meddwl Gwael, Dewisiadau Ffordd o Fyw a Niwroamrywiaeth)


**Am ffurflen archebu cysylltwch â'n Gweinyddwr:**

- E-bost: admin@standnw.org
- Galwch: 07570 583842

## Am yr hyfforddwyr:



Colin Foley yw cyfarwyddwr hyfforddi Sefydliad ADHD, yr elusen Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd Ychwanegol fwyaf yn Ewrop. Ar ôl pymtheg mlynedd ar hugain fel athro uwchradd ac uwch arweinydd, mae gwaith Colin i Sefydliad ADHD wedi'i seilio ar rymuso athrawon i gyflawni canlyniadau rhagorol i blant a phobl ifanc hefo Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd Ychwanegol trwy ymwybyddiaeth gynyddol o'r cyflwr a thrwy strategaethau ystafell ddosbarth ymarferol y gall pob athro eu defnyddio ym mhob cyfnod allweddol.



Mae Scott Jenkinson yn arweinydd gwaith ieuenctid, yn siaradwr ac yn Brif Swyddog Gweithredol Siediau Ieuenctid Cymru, gyda brwdfrydedd dros greu lle mae pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu ffynnu. Gan dynnu ar brofiad proffesiynol a phrofiad byw, mae Scott yn siarad yn onest am arweinyddiaeth, cymuned a phwysigrwydd gwneud gwaith ieuenctid mewn ffyrdd sy'n cwrdd â phobl ifanc lle maen nhw. Yn dilyn diagnosis Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd Ychwanegol (ADHD) hwyr, mae wedi dod yn fwyfwy ymrwymedig i sgyrsiau ynghylch niwroamrywiaeth, gan helpu eraill i ddeall sut y gall arweinwyr niwroamrywiol a phobl ifanc ffynnu pan gânt eu cefnogi â thosturi, mewnwelediad a chreadigrwydd.



Mae Jo Price wedi gweithio mewn darpariaethau addysg arbenigol a phreswyl i blant ac oedolion sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth a / neu anableddau dysgu ers sawl blwyddyn.
Mae hi'n angerddol am Gymorth Ymddygiad Cadarnhaol (CYC), gan sicrhau bod ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan wahanol sefydliadau i bobl ag anabledd dysgu yn cael eu cynnal i safon uchel ac atal a lleihau arferion cyfyngol mewn ysgolion.
Yn ddiweddar, ymunodd â'r tîm yn Sefydliad Anableddau Dysgu Prydain fel Arweinydd Ysgolion CYC ac mae'n diwtor ar gyfer cymwysterau CYC i rieni sy'n gofalu.

STAND
GOGLEDD CYMRU CBC
Yn gryfach gyda'n gilydd ar gyfer Anghenion Ychwanegol ac Anableddau
Rhif Cwmni: 11333532



Mae Roxy Nugent yn Enillydd Gwobrau Rhyngwladol a Chenedlaethol y DU am ei sgiliau darparu hyfforddiant a Rheoli Arweinyddiaeth. Mae ganddi hanes gyrfa sy'n ymestyn dros 35 mlynedd gan gynnwys profiad fel aelod o fwrdd Iechyd Meddwl ar lefel y Deyrnas Unedig. Mae ganddi angerdd dros wneud gwahaniaethau gwirioneddol mewn sefydliadau ac mae ganddi gymhelliant uchel ac ymgysylltiol. Mae ei chynnig ymgynghori i sefydliadau wedi'i deilwra i'w hanghenion sefydliadol penodol, eu gweledigaeth a sut y gallant wneud gwahaniaeth cadarnhaol go iawn i wella agweddau a chadw'r dalent orau mewn sefydliadau.



Mae Bec Shanks yn therapydd iaith a lleferydd gyda thros 30 mlynedd o brofiad o weithio hefo plant a phobl ifanc niwroamrywiol a'u teuluoedd ar draws amrywiaeth o leoliadau. Ar hyn o bryd mae hi'n gweithio o fewn tîm Niwroddatblygiadol Conwy a Sir Ddinbych ac mae wedi datblygu'r proffil Niwroddatblygiadol fel rhan o'i rôl. Mae Bec yn angerddol am alluogi lleisiau plant a phobl ifanc i gael eu clywed, yn ogystal â llunio ffyrdd newydd a chydweithredol o weithio system gyfan sy'n canolbwyntio'n gryf ar anghenion a 'beth sy'n gweithio' i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.



Mae Glesni Mae Glesni Jones yn Ddadansoddwr Ymddygiad Cymhwysol cymwysedig, a fu'n gweithio'n flaenorol mewn darpariaeth anghenion addysgol arbennig fel rhan o Dîm Cynhwysiant. Ei rôl bresennol yw Swyddog Arweiniol Cyflyrau Sbectrwm Awtistiaeth Conwy a Sir Ddinbych, sy'n gyfrifol am yrru gweithrediad cod ymarfer llywodraeth Cymru ar ddarparu gwasanaethau awtistiaeth ledled Conwy a Sir Ddinbych. Mae ei chefndir yn cynnwys Ymarfer sy'n Wybodus am Drawma, ac Iechyd Meddwl. Mae ganddi radd Meistr yn y Gwyddorau mewn Dadansoddi Ymddygiadol Cymhwysol, Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol yn ogystal â Gradd Baglor Anrhydedd mewn Astudiaethau Plentyndod Blynyddoedd Cynnar. Mae Glesni yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf

# Awtistiaeth: Cynhwysiant a Pherthyn – Cynhadledd i Weithwyr Proffesiynol sy'n gweithio hefo pobl ifanc ar draws Gwaith Ieuenctid a Chyfiawnder Ieuenctid

- **Dyddiad:** Dydd Iau 21ain Mai 2026
- **Amser:** 9.00 y bore – 4.00 y prynhawn

SESIWN Y BORE:

9.00 y bore – Cofrestru

9.15 – 9.30 y bore Croeso a Chyflwyniad gan Glesni Jones (swyddog arweiniol Cyflyrau Sbectrwm Awtistiaeth Conwy a Sir Ddinbych)

9.30 y bore - 12.00 canol dydd (yn cynnwys saib lluniaeth o 11.00 – 11.15)
Colin Foley o'r Sefydliad ADHD
Sesiwn gynhwysfawr ar strategaethau cyffredinol i gefnogi niwroamrywiaeth mewn pobl ifanc.

12.00 - 12.30 y prynhawn
Scott Jenkinson, Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Blannwr Siediau, Siediau Ieuenctid
Mae Scott yn rhannu ei daith bersonol, o lywio heriau ADHD i sefydlu Siediau Ieuenctid, mudiad sydd wedi'i adeiladu ar obaith, perthyn, ac ail gyfleoedd. Mae ei stori yn dyst i wydnwch, diben, a grym trawsnewidiol profiad byw.

12.30pm – 1.15pm Cinio

SESIWN Y PRYNHAWN

1.15 – 3.15 y prynhawn Un o'r gweithdai isod (wedi eu archebu ymlaen llaw)

1) Roxy Nugent (Amrywiaeth: Yr Hyn y Gallwch a'r Hyn na Allwch ei Ddweud)
2) Rebecca Shanks (Defnyddio'r Offeryn Proffilio Niwroddatblygiadol Newydd)
3) Jo Price (Amgylcheddau Galluog mewn Lleoliadau Ieuenctid)
4) Colin Foley (Y Berthynas Rhwng Iechyd Meddwl Gwael, Dewisiadau Ffordd o Fyw a Niwroamrywiaeth)

3.30 – 4.00 y prynhawn Cwestiynau ac Atebion